**PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell wedi'i Ailgynnull (o 8 Medi), 6 Hydref, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd H.M. Payne (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, R.E. Godfrey, E.J. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman a E. Penn.

Aelodau cyfetholedig: Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig) a R. Morteo ((Yr Eglwys yng Nghymru).

Hefyd yn bresennol: R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr W. Gilligan a N.B. Marshallsea; a L. Barrowclough (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd)

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 3. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 1 2022/23 (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni gmrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaetholl y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) NODI'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ei ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 gyda'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i foldome ei ofynion perfformiad fel y'u hamlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac sy'n adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei fod yn manteisio i'r eithaf ar ei gyfraniad at gyflawni nodau llesiant Cymru.

EITEM AGENDA 4. CAU CYFRIFON REFENIW 2021/22. (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.

(2) NODI cyllideb ddiwygiedig Derfynol 2021/22, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 sy'n adlewyrchu cynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2021/22 yn ogystal â'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigir.

EITEM AGENDA 5. CAU CYFRIFON CYFALAF 2021/22. (CDS) –

ARGYMHELLWYD – NODI'r sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.